

Arallgyfeirio incwm

Mae angen arian ar elusennau a grwpiau cymunedol er mwyn iddynt weithredu. Boed i dalu staff, i dalu costau craidd fel costau cynnal a chadw ac yswiriant adeiladau, i brynu offer, i dalu treuliau gwirfoddolwyr neu i dalu am hyfforddiant allanol.

Gall dibynnu ar un ffynhonnell incwm achosi problemau, yn enwedig os nad yw'r ffynhonnell honno yn ddibynadwy neu os oes terfynau amser yn gysylltiedig â'r ffynhonnell. Po fwyaf y bydd sefydliad nid er elw yn dibynnu ar un ffynhonnell incwm, y mwyaf fydd y bygythiad i'w sefydlogrwydd ariannol hirdymor.

Mae gostyngiadau mewn cyllidebau a newidiadau gwleidyddol ac economaidd oll yn rhoi pwysau ychwanegol ar grwpiau cymunedol ac elusennau.

Sut i arallgyfeirio incwm

Dylai elusennau a sefydliadau nid er elw anelu at sicrhau sawl ffrwd incwm, ac mae llawer o ffrydiau ar gael i'w hystyried:

- Grantiau gan ymddiriedolaethau elusenol
- Cyllid gan y llywodraeth
- Rhoddion gan y cyhoedd
- Ymdrechion codi arian corfforaethol
- Contractau drwy awdurdodau lleol
- Codi refeniw drwy werthu/mentrau cymdeithasol

Buddiannau arallgyfeirio

Mae ymdrechion digonol i arallgyfeirio incwm yn golygu, hyd yn oed os caiff prif ffynhonnell incwm ei cholli, y bydd y sefydliad yn gallu parhau â'i weithrediadau a chyflawni ei amcanion elusenol.

Mae pwysigrwydd arallgyfeirio incwm wedi dod yn arbennig o amlwg yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Dangosodd y pandemig pa mor gyflym y gall risg annisgwyl ddatblygu. Yn ogystal â rhoi pwysau ariannol sylweddol ar sefydliadau nid er elw ac elusennau, rhoddodd y pandemig hefyd bwysau ar y grwpiau a'r bobl sy'n eu cyllido. Mae'r tirlun cyllido yn newid yn barhaus, ac felly hefyd y dylai'r grwpiau sy'n anelu at sicrhau sefydlogrwydd yn y maes.

Asesu parhaus

Fel yr ydym wedi gweld yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, nid proses untro mo arallgyfeirio incwm. Ac ni ellir ei ddefnyddio i 'lenwi bwloch' fel ateb munud olaf. Mae angen trefniadau asesu parhaus a phroses barhaus. Bydd trefniadau parhaus ar gyfer asesu ffrydiau incwm yn helpu i sicrhau trefniadau llywodraethu iach, lliniaru risgiau a sicrhau sefydlogrwydd ariannol hirdymor. Dylid ystyried y canlynol o ran pob math o ffrwd incwm:

- Yr arian a geir gan bob ffrwd incwm
- Y costau sy'n gysylltiedig â phob ffrwd incwm

- Y risg o golli pob ffrwd incwm
- Effaith colli pob ffrwd incwm

Baneri ariannol gwyrdd

Mae ffyrdd eraill y gall sefydliadau liniaru risgiau a chynllunio ar gyfer dyfodol cynaliadwy yn cynnwys rhai o'r 'baneri ariannol gwyrdd' hyn:

- Sicrhau bod gennych bolisi cronfeydd wrth gefn realistig sy'n dangos ôl meddwl sy'n ystyried trefniadau rheoli risg a gobeithion a breuddwydion y grŵp ar gyfer y dyfodol
- Cronfeydd anghyfyngedig wrth gefn sy'n briodol ac yn iach o ystyried maint a chwmpas y sefydliad